PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 27 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Philippa Hill-John, Owen Jones, Caerhirfryn, Lay, Mackie, Owen a/ac Wong |

52 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDENB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Wood.

53 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau a Deddf Llywodraeth Leol 1972:

| | | |
|---|---|---|
| Cynghorydd Patel | Eitem 3 | Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd |
| Cynghorydd Lay | Eitem 3 | Aelod Bwrdd Anweithredol Bws Caerdydd |
| Cynghorydd Mackie | Eitem 3 | Preswylydd yn Heol y Porth sydd o fewn Ardal Reoli Aer Canol y Ddinas |

54 : CRAFFU CYN PENDERFYNIAD: ANSAWDD AER CAERDYDD

Mae disgwyl i adroddiad dan y teitl ‘Ansawdd Aer Caerdydd’ gael ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth 2018. Nododd yr adroddiad i Cabinet fod y Cyngor wedi cyfarwyddyd cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru sy’n gofyn am yr awdurdod i fynd i’r afael ag astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer cydymffurfiaeth Nitrogen Deuocsid dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae gofyn i Cabinet gymeradwyo mynd i’r afael ag astudiaeth ddichonolrwydd yn unol â’r cyfarwyddyd ac hefyd i gymeradwyo caffael ymgynghorydd annibynnol i fynd i’r afael a’r astudiaeth ddichonolrwydd, er mwyn nodi dewisiadau ar gyfer gwella ansawdd aer a chydymffurfio â therfynau cyfreithiol ar gyfer nitrogen deuocsid yng Nghaerdydd.

Cynghorwyd aelodau fod y Cabinet i fynd i’r afael â’r cynigion a wnaed gan Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio’r adrannau camau gweithredu canlynol:

- Cefndir
- Ansawdd Aer yng Nghaerdydd
- Cyfarwyddyd Cyfreithiol gan Lywodraeth y DU i Ddinasoedd Lloegr
- Cyfarwyddyd Cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru
- Mesurau Gwella
- Ardaloedd Aer Glân
- Papur Gwyrdd Trafnidiaeth ac Aer Glân

Rhoddwyd crynodeb o bwyntiau allweddol yr adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor. Gofynnwyd i aelodau ystyried yr adrannau yn yr adroddiad Cabinet drafft a phasio eu sylwadau neu argymhellion i'r Cabinet.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth; y Cynghorydd Susan Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol Iechyd a Llesiant; y Cynghorydd Michael Michael, yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd; Paul Orders, Prif Weithredwr; Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas; a Gary Brown, rheolwr Gweithredol, Asedau, Peirianneg a Gweithrediadau i'r cyfarfod. Yn dilyn datganiadau gan yr Aelodau Cabinet gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad byr.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu godi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Noddodd y Pwyllgor fod cynigion cwmpasu cychwynnol y Cyngor i'w cwblhau a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2018. Holodd aelodau os oedd y dyddiad terfyn yn gyraeddadwy.
- Cynghorodd swyddogion mai'r bwriad oedd gyrru'r cynigion at Lywodraeth Cymru ar 29 Mawrth 2018. Holodd aelodau sut oedd yr awdurdod yn cynllunio i gydlynu ymgynghoriad ar y cynigion gyda'r 90,000 o gymudwyr yng Nghaerdydd. Dwedodd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth fod y Papur Gwyrdd ar Drafnidiaeth wedi ei rannu gyda chydweithwyr mewn awdurdodau cymdogol trwy gyfrwng Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dwedodd y Prif Weithredwr wrth i'r awdurdod weithio drwy'r broses y bydd angen adeiladu achos busnes wedi ei deilwra i sefyllfa Caerdydd. Bydd yr achos busnes yn cynnwys cynllun ymgysylltu ac mai ymgynghori gyda dinasyddion lleol yn ffurfio rhan o hynny.

- Cyfeiriodd aelodau at y ddwy ardal a nodwyd gan DEFRA lle mae modelu data wedi nodi'r potensial ar gyfer gormodiannau NOx. Y rhain yw yr A48 ger Ysby'r Brifysgol a'r A4232 ger Parc Manwerthu Ferry Road. Ystyriai aelodau ei bod yn hanfodol i'r cyhoedd gael eu cynghori o lefelau llygredd NOx yn y mannau hynny er mwyn ennill cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer unrhyw bolisïau aer glân. Nododd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd y byddai'r ymgynghorwyr a benodid yn cael y dasg o ddarparu data ansawdd aer ledled y ddinas oedd yn gadarn, cyfredol, ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Nododd y Prif Weithredwr fod y mater hwn yn greiddiol i'r mater cenedlaethol – mae setiau data cenedlaethol wedi tanlinellu problemau posib ar yr A48 a'r A4232 a'i bod yn bwysig gwirio'r data.

- Holodd Aelodau os oedd y cynigion cwmpasu yn cynnwys effaith bosib datblygiadau tai yn y ddinas ar ansawdd yr aer. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai'r cynigion yn mabwysiadu agwedd hirdymor a bod yn rhaid cynnwys cynlluniau tai.

- Holodd aelodau os oedd yn bosib cwblhau'r astudiaeth dichonolrwydd o fewn y terfyn 6 mis a osodwyd gan Llywodraeth Cymru. Cynghorwyd Aelodau fod gan Lywodraeth Cymru fodelu trafnidiaeth/ansawdd aer yn ei le sy'n cynnig methodoleg yn seiliedig ar brawf. Caiff y model hwnnw ei ddefnyddio ar gyfer yr astudiaeth o ddichonoldeb. Byddai'r astudiaeth hefyd yn ceisio tynnu ar

arbenigedd yn y maes hwn a’r arfer gorau.

- Cadarnhaodd swyddogion fod unrhyw ddeddfwriaeth UE yn rheoleiddio allyriadau cerbydau yn debygol o gael ei fabwysiadu gan y DU yn ystod cyfnod pontio ac wedi “Brexit”.

- Cytunodd aelodau ei bod hi’n glir y byddai pwys o’r mwyaf yn cael e osod ar yr astudiaeth o ddichonoldeb. Holodd y Pwyllgor faint o ystyriaeth oedd yn cael ei roii’r ymgynghorwyr a ddefnyddid/ Nododd swyddogion fod paratoadau caffael yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Rhaid i sefyllfa hirdymor y ddinas fynd i’r afael â ffactorau economaidd ac iechyd. Os oedd y ddinas yn symud at sefyllfa o godi tâl neu ddirwyo, yna byddai hyn yn cael effaith ar wahanol adrannau yn y gymuned mewn ffyrdd gwahanol. Rhaid i’r awdurdod fod yn ofalgar o hynny ac o’r sefyllfa’n fyd eang. Dywedwyd fod dinasoedd deinamig wedi gwneud symudiadau pendant ar y mater hwn. Byddai’r ffactorau hyn yn cael eu hystyried gan yr ymgynghorwyr wrth werthuso datrysiadau technegol. Nododd y Prif Weithredwr fod yna ystod o ffactorau cydbwyso a chyfnewidiad rhwng blaenoriaethau byr dymor a hirdymor. Roedd ffactorau cydbwyso hefyd yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, datrysiad lleol neu ledled y ddinas, canlyniadau’r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd ac argaeledd unrhyw arian cyfalaf ychwanegol.

- Nododd Aelod fod nifer o ddinasoedd Ewropeaidd yn arwain y ffordd o ran mynd i’r afael ag ansawdd aer. Holodd yr Aelod pa mor llydan oedd y rhwyd yn cael ei daenu parthed caffael partner (ymgynghorwyr). Datganodd swyddogion fod llawer o ymgynghoriadau sy’n arbenigo yn y maes hwn sydd yn gweithio’n fyd eang. Holodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant y Pwyllgor i nodi yn sail i unrhyw benderfyniad ar ddatrysiad ar gyfer Caerdydd fyddai effaith ansawdd yr aer ar iechyd. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a’r bwrdd iechyd lleol arbenigedd ac maent yn gallu cefnogi gwaith yn y maes hwn.

- Holodd aelodau os oedd cynigion presennol yn ymwneud â’r rhwydwaith ffyrdd, rhwydweithiau beicio a ffynonellau tannwydd ynni yn y ddinas yn cael eu hadolygu o ganlyniad i gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru. Dangosodd yr Aelod cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd fod y materion hyn wedi eu cynnwys o fewn y Papur Gwyrdd ar Drafnidiaeth fel rhan o’r cynllun tymor hir i newid dibyniaeth ar danwydd yn y Ddinas.

- Nododd aelodau fod y cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn dyfarniad Uchel Lys, a ragflaenwyd gan ddau ddyfarniad cynharach. Holodd aelodau pa baratoadau oedd yr awdurdod wedi eu gwneud cyn yr adeg hwn. Nododd swyddogion fod gan yr awdurdod agenda trafnidiaeth gadarnhaol a bod y Cyngor wedi bod yn symud i’r cyfeiriad hwn ers peth amser. Nod y cynigion Teithio Llesol a’r Papur Gwyrdd ar Drafnidiaeth yw mynd i’r afael â’r mater hwn, ond mae dyfarniad yr Uchel Lys wedi rhoi'r ddadl mewn cyd-destun iechyd cyhoeddus a'r mater ar agenda Llywodraeth Cymru.

- Holodd Aelodau sut ei bod yn bosibl unioni twf economaidd a gwell iechyd cyhoeddus a sut y gellid modelu hyn. Dywedodd y Prif Weithredwr fod rhain y gwestiynau sylfaenol. Roedd twf economaidd ac iechyd cyhoeddus yn ffactorau cydbwyso. Roedd hi’n bwysig ystyried yr holl ffactorau a chynnig ymateb cymesur. Nododd yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth fod

y cwestiwn yn arwydd o ymagwedd y weinyddiaeth at fynd i'r afael â'r pwnc. Nododd yr Aelod Cabinet mai'r dinasoedd hynny sydd yn arwain ar fynd i'r afael ag ansawdd aer yw'r rheiny sydd ar flaen y gad o ran twf economaidd.

- Holodd aelodau os oedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gynnig unrhyw adnoddau ychwanegol.  Nododd y Cyfarwyddwr mai'r arwyddion cyffredinol oedd y byddai Llywodraeth Cymru yn talu am yr astudiaeth o ddichonoldeb a'i weithredu.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch pa ymdrechion a wnaed o ran gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau cymdogol.  Dangosodd yr Aelod Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategaeth a Thrafnidiaeth ei fod wedi cwrdd ag awdurdodau cymdogol i drafod materion trafnidiaeth fel y pwnc oedd wrth wraidd cytundeb y Fargen Ddinesig.

- Cynghorodd Aelodau yn ystod yr ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen ar Ael Glân diweddar fod y neges gan ddarparwyr trafnidiaeth gyhoeddus yn glir – nid yw'r cyllid yn ei le i symud at gerbydau glanach.  Nododd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd yn ystod trafodaethau gyda gweithredwyr tacsi, â 55% ohonynt yn yrwyr-berchnogion, eglurwyd fod cerbydau pŵer trydan yn fwy drud i'w prynu, ond yn fwy economaidd i'w rhedeg.  Ystyriodd yr Aelod Cabinet fod y symud at ffynonellau ynni glân yn broses graddol.

- Cefnogodd aelodau gynigion ar gyfer beicio yng Nghaerdydd, ond ge godon nhw bryderon am ardaloedd allanol lle nad yw beicio wastad yn ddewis ymarferol.  Ystyriodd Aelod fod angen trafnidiaeth gyhoeddus drawsnewidiol a holi sut ellid cyflawni hyn.  Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y Papur Gwyrdd ar Drafnidiaeth yn gosod cynigion uchelgeisiol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a'i fod wrthi'n profi archwaeth y cyhoedd drwy awgrymu dewisiadau wedi eu costio. Mae'r costau yn sylweddol a thrafodaeth lletach yn angenrheidiol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.  Ystyriodd aelodau fod tocynnau integredig, cynlluniau parcio a theithio a llwybrau bysiau mwy rhagweithiol yn hanfodol.

- Holodd aelodau pa ymdrechion oedd yn cael eu gwneud i ddod â Chyfarwyddiaethau'r Cyngor i'r cynigion ar aer glân.  Nododd y Cyfarwyddwr fod camau gweithredu yn y Papur Gwyrdd, megis ail fodelu cynlluniau teithio. Mae nifer o brosesau yn alinio â'i gilydd; Papur Gwyrdd ar Drafnidiaeth, y Metro, Ardaloedd Aer Glân.  Mae hyn yn cynnig cyfle i alinio newidiadau mawr ac felly mae angen golygwedd strategol yn yr asesiad o ddichonoldeb. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd fod cymaint o gyfarwyddiaethau â phosib am gael eu dwyn i mewn i'r cynigion. Bydd gwaith yn mynd rhagddo ar draws y cyfarwyddiaethau.  Prawf o hyn yw fod tri Aelod Cabinet yn bresennol yn y cyfarfod.

- Roedd Aelod yn ystyried fod Caerdydd efallai yn dod i ben draw'r broses Ardal Aer Glân a chwestiynodd os oedd y Cyngor mewn peryg o gyflymu ei benderfyniadau a chael ei gyfaddawdu yn sgil hynny.  Dywedodd y Prif Weithredwr fod yna resymeg i'r broses gyfreithiol sydd nawr wedi trosglwyddo i faterion cyfarwyddo ar lefel ddatganoledig.  Mae gofyn i'r awdurdod nawr i ymateb ond mae eisoes wedi bod yn symud i'r cyfeiriad hwn am nifer o

flynyddoedd.

- Gofynnodd y Pwyllgor am arwydd o'r amcangyfrif o gostau yr astudiaeth ar ddichonoldeb. Amcangyfrifodd swyddogion y byddai gan yr astudiaeth o ddichonoldeb amcan o gostau o tua £400k ac y byddai caffael ymgynghorwyr ansawdd aer yn costio tua £350. Byddai'r costau hyn yn cael eu talu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Argymhellodd y swyddogion ofal o ran amcangyfrif gostau'r cynllun terfynol. Unwaith y bydd y dewis a ffefrir yn wybyddus byddai'r awdurdod yn ceisio sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer y ddinas.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm